Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penrhiw-ceibr

**Church Street**
**Penrhiw-ceibr**
**Aberpennar**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF45 3YD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penrhiw-ceibr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penrhiw-ceibr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 133 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 101 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 29.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | *0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 16/10/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

**a.** Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae hon yn ysgol hapus, gynhwysol a chroesawgar. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn siarad â balchder am yr hyn sydd ganddi i'w gynnig. Mae ei chwricwlwm yn darparu profiadau dysgu difyr a chymhellol sy'n gwneud dysgu'n hwyl. Mae disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwersi, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud eu gorau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau siarad yn dda, yn aml o fannau cychwyn isel. Mae podlediad misol yr ysgol yn enghraifft dda o'r modd y daw disgyblion yn siaradwyr hyderus erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau digidol yn hyderus, gan eu defnyddio'n dda i arddangos eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein, hefyd. Mae athrawon yn gweithio tuag at wella medrau mathemategol disgyblion, yn enwedig wrth iddynt alw ffeithiau rhif i gof, ond megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac mae angen ei wella. Mae athrawon yn siarad â disgyblion am sut i wella'u gwaith yn rheolaidd, ac mae disgyblion yn aml yn gweithredu ar hyn, ond nid ydynt bob amser yn caniatáu digon o amser i ddisgyblion gywiro a gwella gwaith neu'n nodi'n ddigon manwl beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i fynd â'u gwaith i'r cam nesaf. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dda iawn, gan gynnwys y rhai yn y dosbarth arsylwi ac asesu, i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn cyfleu ei weledigaeth glir i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae'n sicrhau bod lles disgyblion yn flaenoriaeth ac mae staff yn gweithio'n dda iawn i'w gefnogi â hyn. Ceir gwaith tîm a chydweithrediad effeithiol iawn yn yr ysgol. Mae staff yn uchelgeisiol ar gyfer y disgyblion ac yn gweithio'n galed i gael gwared ar unrhyw rwystrau rhag dysgu. Maent yn darparu lefelau uchel o ofal i ddisgyblion ac yn diwallu eu hanghenion emosiynol yn dda. Mae arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cryf â rhieni, ac mae hyn yn cyfrannu at naws deuluol yr ysgol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol. Mae'r cysylltiadau hyn yn ymestyn y cwricwlwm ar gyfer y disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu balchder yn ble maent yn byw, a dealltwriaeth o'i lle yng Nghymru.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi gwella'u rôl o ran gwerthuso perfformiad yr ysgol a chynllunio ar gyfer ei gwella, ond megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau sylfaenol disgyblion mewn mathemateg

A2 Sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn nodi camau clir ar gyfer gwella a bod disgyblion yn gweithredu ar yr adborth hwn

A3 Cryfhau rôl llywodraethwyr mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i sicrhau eu bod yn darparu her addas i'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn y dosbarth Meithrin gyda medrau mewn iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad corfforol ymhell islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, er nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bob amser yn gwneud cynnydd ar yr un gyfradd â'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY, a'r rhai yn y dosbarth arsylwi ac asesu, yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol.

Pan fyddant yn ymuno â'r dosbarth Meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd gwrando a chyfleu eu hanghenion yn glir. Mae medrau lleferydd, iaith a chyfathrebu disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 a 2 yn siarad am y gwahanol adeiladau ym Mhenrhiw-ceibr ac yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng gwahanol fathau o dai. Mae disgyblion hŷn yn cyfathrebu'n rhugl ag oedolion ac yn datblygu eu medrau'n dda. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae eu cyflwyno cyflym a brwdfrydig yn ennyn diddordeb y gwrandäwr pan fyddant yn cynhyrchu eu podlediad misol am fywyd yn yr ysgol a'r gymuned.

Yn y dosbarth Derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod seiniau llythrennau cychwynnol ac yn dechrau defnyddio'r rhain i gyfuno geiriau syml. Maent yn deall bod ystyr i eiriau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn adnabod ystod gynyddol o eiriau ac yn datblygu'r medrau i gyfuno ychydig o seiniau i weithio allan geiriau newydd. Mae llawer ohonynt yn gwybod y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn esbonio beth mae hyn yn ei olygu. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen yn briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl gyda mynegiant. Megis dechrau datblygu y mae eu gallu i resymu a dod i gasgliad am yr hyn y maent yn ei ddarllen.

Yn y dosbarth Meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn creu marciau wrth iddynt chwarae gan ddefnyddio amrywiaeth o offer â chydsymud cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn yn dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gyda chymorth oedolyn. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, mae disgyblion yn dechrau ysgrifennu eu brawddegau eu hunain, a lleiafrif ohonynt yn ymestyn y rhain yn storïau hirach gyda geirfa addas. Daw eu hysgrifennu yn fwy manwl, ar y cyfan, ac maent yn rhoi sylw da i ddefnyddio atalnodi syml. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu gyda hyd a hyder cynyddol. Maent yn deall nodweddion ystod o wahanol genres ac yn dangos y rhain pan fyddant yn cynhyrchu eu hysgrifennu eu hunain. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd cyson o reolau y maent wedi'u dysgu yn flaenorol, ac nid ydynt bob amser yn ysgrifennu'n ddestlus nac yn cyflwyno'u gwaith yn dda.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o lawer o gysyniadau mathemategol. Mae disgyblion iau yn dechrau defnyddio iaith mathemateg yn gywir ac yn dysgu cyfrif ac adnabod rhifau trwy eu chwarae ac wrth chwarae gemau bwrdd gydag oedolion. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau dweud faint o'r gloch yw hi yn hyderus ac yn cyflwyno a dehongli'r data a gasglant yn gywir. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu dealltwriaeth ddigon cadarn o fedrau mathemategol sylfaenol neu'n galw ffeithiau am rifau i gof yn gyflym. Mae hyn yn ei gwneud yn anos iddynt gymhwyso'u medrau i weithgareddau datrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn dda ac yn dangos brwdfrydedd i ddysgu'r iaith. Mae disgyblion iau yn dilyn cyfarwyddiadau yn Gymraeg ac yn aml yn defnyddio'r iaith yn ddigymell, er enghraifft wrth chwarae gemau bwrdd gydag oedolyn neu i ofyn am fath o ffrwyth amser byrbryd. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o'r Gymraeg yn datblygu i gynnwys patrymau iaith mwy cymhleth. Mae disgyblion yn awyddus i geisio ymestyn eu brawddegau, yn aml trwy roi rhesymau dros eu hatebion i gwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau digidol. Mae disgyblion iau yn dangos hyder wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol ac yn dechrau eu defnyddio'n dda i ymarfer eu medrau mathemategol. Maent yn defnyddio cyfrifiaduron llechen digidol i greu cerddoriaeth, ei golygu a'i chwarae'n ôl. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod gynhwysfawr o fedrau digidol, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i ymestyn a chyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu animeiddiadau a chyflwyniadau trawiadol ar ddiogelwch ar y ffyrdd a diogelwch digidol.

Mae medrau corfforol disgyblion yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn balansio ar wahanol gyfarpar yn yr ardal awyr agored, ac yn symud rhyngddynt, ar ôl iddynt ddylunio cwrs rhwystrau. Maent yn datblygu eu medrau cydsymud yn dda wrth iddynt ymuno â'r drefn ymarfer corff yn gynnar y bore.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r broses greadigol ac yn gwneud y gorau o gyfleoedd i fod yn greadigol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cynllunio'u harbrofion gwyddoniaeth eu hunain i brofi gwahanol briodoleddau'r troellwyr y maent yn eu gwneud. Wrth astudio'u cymuned, maent yn defnyddio hidlwyr yn fedrus i olygu ffotograffau yn arddull yr arlunydd Kyffin Williams.

Mae disgyblion iau yn dechrau datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn dda. Maent yn dewis yr offer cywir ar gyfer gweithgareddau, ac yn cynnal eu diddordeb ynddynt. Nid yw disgyblion hŷn bob amser yn cwblhau gwaith annibynnol i'r un safon â'u gwaith arall neu'n cymryd cymaint o ofal â chyflwyniad.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion, gan gynnwys y rhai yn y dosbarth arsylwi ac asesu, yn dangos balchder clir yn eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu, ac yn gwybod bod eu meddyliau, eu syniadau a'u hawgrymiadau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus, os oes ganddynt unrhyw bryderon, y bydd staff yn gwrando arnynt yn ofalus ac yn gweithredu'n briodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Mae mwynhad cyffredinol disgyblion o'r ysgol yn golygu bod y rhan fwyaf ohonynt yn mynychu'n rheolaidd ac yn brydlon. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Ar draws yr ysgol gyfan, mae disgyblion yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddysgwyr brwd sy'n dangos lefelau uchel o frwdfrydedd am y profiadau a gânt yn yr ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac ar ei gilydd, ac yn mynd ati i wneud tasgau â hyder a brwdfrydedd, ar y cyfan, gan ddal ati i ganolbwyntio trwy gydol sesiynau.

At ei gilydd, mae disgyblion yn croesawu'r adborth a gânt gan eu hathrawon. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn ymateb i'r adborth hwn yn ddigon rheolaidd i wella'u gwaith neu gywiro camgymeriadau. Mae'r agwedd hon ar waith disgyblion yn datblygu. Mae llawer o ddisgyblion yn deall sut i ystyried meini prawf llwyddiant i gwblhau amrywiaeth o dasgau, fel nodi confensiynau ysgrifennu llythyr pan fyddant yn ysgrifennu llythyrau o ddiolch at y ficer ar ôl ymweld â'r eglwys leol. Mae disgyblion iau yn dechrau myfyrio'n dda ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn gwirio cardiau Pasg ei gilydd ac yn siarad yn synhwyrol am ffyrdd y gallant wella'u dyluniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae hyn yn nodwedd gref yn yr ysgol. Maent yn parchu a dilyn rheolau'r ysgol. Mae eu rhyngweithiadau â'i gilydd yn ofalgar ac annwyl, ac maent yn datblygu lefelau da o empathi a thosturi. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn ymgymryd â rolau arwain gyda balchder, angerdd ac egni. Maent yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n aeddfed. Er enghraifft, mae'r Cyngor Ysgol wedi gweithio'n agos gyda staff i gyflwyno amser i ddisgyblion fyfyrio. Mae hyn yn cynnig ffordd sensitif i ddisgyblion rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt gan wybod y byddant yn cael eu cynorthwyo â gofal a thosturi. Mae grŵp o ddisgyblion hŷn yn cynhyrchu podlediad addysgiadol a dathliadol bob mis sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd a'r gymuned leol am fywyd yr ysgol. Mae'r Criw Iaith yn hyrwyddo'r Gymraeg yn frwdfrydig trwy weithgareddau ysgol a gemau amser chwarae.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd diet iach a ffordd iach o fyw. Maent yn croesawu cyfleoedd i wneud ymarfer corff ac yn datblygu eu medrau corfforol trwy'r gweithgareddau cyfoethogi niferus a gynigir. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn

dysgu'n gyflym sut i weithio gyda'i gilydd ac yn creu cyrsiau rhwystrau, daw llawer o ddisgyblion hŷn yn nofwyr hyderus a medrus, ac mae disgyblion o bob oedran yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon buddiol. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Maent yn gwybod i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol, ac yn deall pa gamau i'w cymryd os bydd dieithryn yn ceisio cysylltu â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n weithredol ag ymdrech yr ysgol i'w datblygu i fod yn ddinasyddion effeithiol a moesegol. Maent yn datblygu medrau gwaith tîm da trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau rheolaidd lle maent yn cyfweld ac yn ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned, ac yn trefnu digwyddiadau codi arian i gefnogi sawl elusen. Mae disgyblion hŷn yn datblygu ymwybyddiaeth gref o faterion amgylcheddol lleol a'r angen i weithredu'n gynaliadwy trwy eu gwaith testun, prosiectau a grwpiau llais y disgybl. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r buddion ecolegol a'r buddion iechyd a geir trwy gynnal eu hamgylchedd lleol, a'i warchod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol yn y maes hwn, ac mae'r grwpiau llais y disgybl yn aml yn cydweithio fel Senedd yr ysgol i wella'r amgylchedd dysgu y tu mewn a'r tu allan.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu brwdfrydedd i ddysgu, a dealltwriaeth o'r gymuned leol a'r byd ehangach o'u cwmpas. Mae staff yn cynllunio gyda'i gilydd a gydag ysgolion lleol eraill i ddatblygu cwricwlwm pwrpasol sy'n diwallu anghenion disgyblion. Maent yn adolygu ac yn addasu addysgu a phrofiadau dysgu mewn modd defnyddiol yn rheolaidd, ac yn dechrau datblygu dealltwriaeth glir o sut mae disgyblion yn gwneud cynnydd ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal leol a thripiau ysgol i ymestyn dysgu'r disgyblion. Maent yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau â'r gymuned leol ac yn gwneud defnydd da o'r rhain i ddatblygu synnwyr disgyblion o empathi am fywydau pobl eraill. Er enghraifft, mae trigolion lleol a disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i siarad â'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd yn y grŵp 'Gwau a Sgwrsio'. Ceir llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu. Mae disgyblion yn bwydo'u syniadau i destunau yn ystod diwrnodau trochi, ac mae staff yn casglu barn ystod o grwpiau llais y disgybl, sy'n dylanwadu ar gynllunio.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd o ansawdd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae'r ffocws cryf ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar draws yr ysgol, ac mae oedolion wedi cael eu hyfforddi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau siarad yn effeithiol. Caiff addysgu darllen ei gynllunio'n systematig, a cheir rhaglen strwythuredig i ddatblygu gwybodaeth ffonolegol disgyblion. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau'r sesiynau darllen dan arweiniad yn fawr, sy'n eu helpu i ddatblygu cariad at lyfrau a darllen, a chaffael dealltwriaeth well o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae'r elfen hon o'r gwaith yn gymharol newydd, ac nid yw wedi cael effaith arwyddocaol ar fedrau darllen a deall disgyblion hyd yma. Ar hyn o bryd, mae ffocws ar ddatblygu medrau mathemategol sylfaenol disgyblion ar draws yr ysgol, yn enwedig eu medrau galw ffeithiau rhif i gof. Megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae staff yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion glywed ac ymarfer eu medrau Cymraeg. Trwy ffocws ar y gymuned leol a'i lle yng Nghymru, maent yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae staff yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu ystod dda o fedrau digidol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys agweddau fel codio, cronfeydd data a phodlediadau. Mae'r medrau hyn yn cryfhau'n dda iawn trwy'r ysgol. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddeall sut i aros yn ddiogel ar-lein, a sut i ddefnyddio offer digidol yn gyfrifol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n addas i gyflwyno'r cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb, ac yn creu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i ddangos parch at bobl eraill. Er enghraifft, mae'r grŵp Rhyfelwyr Lles (Well-being Warriors) yn canolbwyntio ar strategaethau gwrthfwlio a gwaredu anghydraddoldeb rhywedd ar y maes chwarae.

Ceir cyfleoedd da i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth. Er enghraifft, yn ystod 'Mis Hanes Pobl Ddu', mae disgyblion yn trafod materion pwysig fel hiliaeth, ac yn ystod 'Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod', maent yn dysgu iaith arwyddion i gyfathrebu â'r rhai sydd ag anawsterau clywed.

Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon a staff cymorth berthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion. Maent yn eithriadol o anogol ac yn modelu ymddygiad yn dda. Mae athrawon a staff cymorth yn y dosbarth arsylwi ac asesu yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion dysgu a lles disgyblion, ac yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio gweithgareddau yn benodol ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Ym mhob dosbarth, mae'r dysgu'n symud ymlaen ar gyflymdra da ac yn parhau i ennyn diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn atgrynhoi dysgu blaenorol yn ddefnyddiol, ac yn defnyddio holi'n dda i symud y dysgu ymlaen. Yn gyffredinol, maent yn gweddu gweithgareddau a thasgau yn dda i allu disgyblion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae heriau annibynnol disgyblion yn rhy niferus neu gymhleth i ddisgyblion eu cwblhau heb gymorth oedolyn. Pan na fydd hyn ar gael, nid yw disgyblion bob amser yn cwblhau gwaith i'r safon ddisgwyliedig.

Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion am eu dysgu. Mewn dosbarthiadau lle mae hyn yn effeithiol, mae disgyblion yn gwella'u gwaith o ganlyniad, ac yn deall beth mae angen iddynt ei wneud y tro nesaf i wneud eu gwaith yn well. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'r adborth hwn nac yn sicrhau ei fod yn ddigon penodol i helpu disgyblion i wella agweddau pwysig ar eu gwaith.

Mae staff yn gwneud defnydd eithriadol o dda o'r amgylcheddau dysgu yn yr awyr agored sy'n ysgogol ac yn cynnwys adnoddau da i ymestyn dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol disgyblion yn dda, yn rhoi'r hyder iddynt fentro'n bwyllog ac yn annog creadigrwydd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol, gan gynnwys y dosbarth arsylwi ac asesu, yn gymuned anogol a chefnogol iawn lle mae staff yn meithrin ethos gofalgar a chyfeillgar sy'n galluogi

disgyblion i ffynnu. Mae'r perthnasoedd cryf rhwng staff, rhieni a disgyblion yn nodwedd o waith yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn mynd i'r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda, ac mae hyn yn helpu disgyblion i reoli eu hemosiynau ac yn hyrwyddo ymddygiad da ar draws yr ysgol. Maent yn darparu gweithgareddau difyr yn ystod y diwrnod ysgol, ac ar ei ôl, sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn weithredol ym mywyd yr ysgol.

Mae Cydlynydd ADY dros dro'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â staff ac uwch arweinwyr i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gyflym, ac yn darparu cymorth amserol a thargedig. Maent yn adolygu cynnydd disgyblion unigol yn rheolaidd, ac yn cyfarfod â rhieni i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o anghenion parhaus disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynnal cyfres o raglenni ymyrraeth â ffocws sydd wedi'u cynllunio'n dda. Maent yn gweithio'n fedrus gyda disgyblion i leihau bylchau yn eu dysgu a rhoi hwb i'w hyder. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda ag ysgolion lleol a gwasanaethau arbenigol i fanteisio ar arweiniad a chymorth perthnasol sy'n helpu bron pob un o'r disgyblion ag ADY i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd ag amrywiaeth o rolau arwain. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion etholedig i greu eu cynlluniau datblygu eu hunain ar gyfer eu meysydd arwain a chyfrannu'n bwrpasol at wneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae llysgenhadon chwaraeon yr ysgol wedi bod yn allweddol o ran datblygu'r Clwb Chwaraeon Gwych (Super Sporty Club). Maent yn hyfforddi ac yn cyflwyno disgyblion i chwaraeon amser cinio newydd, ac yn fodelau rôl cydwybodol. Mae'r mentrau hyn yn datblygu medrau a diddordebau gwerthfawr sy'n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o chwaraeon i bawb o sut i ymddwyn mewn modd teg a pharchus.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau buddiol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft, fel rhan o'r 'Prosiect Ail-ddweud Stori'r Cymoedd', mae disgyblion yn gweithio ar y cyd â'r Amgueddfa Genedlaethol i greu gwaith celf yn seiliedig ar lwybr tref.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol. Er enghraifft, trwy brosiectau a gyflwynir gan arlunwyr preswyl, mae disgyblion yn creu gwaith celf sy'n cael ei werthu fel rhan o wythnos entrepreneuriaid. Mae disgyblion o Flynyddoedd 5 a 6 yn creu podlediad difyr ac addysgiadol yn seiliedig ar fywyd yr ysgol a'r gymuned. Mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau a defnyddio'u creadigrwydd a'u dychymyg gyda diben.

Mae athrawon yn cynllunio ystod amrywiol o ymweliadau sy'n ymestyn y cwricwlwm ac yn mynd ati i ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion yn eu dysgu. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn ymweld â chanolfan addysg awyr agored i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy'n cynnwys datrys problemau, meddwl yn feirniadol ac adeiladu tîm. Mae'r ysgol yn defnyddio cysylltiad sefydledig Sbaenaidd i ddatblygu medrau iaith disgyblion. Mae disgyblion yn rhannu gwybodaeth am eu credoau a'u diwylliannau ac yn ymweld ag eglwys leol y plwyf yn rheolaidd fel rhan o'u testunau a'u dathliadau yn yr ardal leol.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o anghenion a hawliau pobl eraill, yn lleol ac yn fyd-eang, fel ei gilydd. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau sy’n cyd-fynd â gwerthoedd yr ysgol ac yn adlewyrchu’r agweddau parchus sy’n cael eu modelu yn yr ysgol. Er enghraifft, bu disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn trafod Erthygl 23 Hawliau’r Plentyn, gan ganolbwyntio ar gynwysoldeb ar gyfer pobl ag anableddau. Creon nhw ffilm yn canolbwyntio ar ddathlu gwahaniaethau. Mae llysgenhadon gwych yr ysgol yn trefnu digwyddiadau gwrth-hiliol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a phwysigrwydd gwneud y dewisiadau cywir. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o’r effaith y gall eu gweithredoedd ei chael ar les pobl eraill.

Trwy wythnosau gyrfaoedd, lle mae’r ysgol yn trefnu i fusnesau lleol ymgysylltu â disgyblion, a phrosiectau menter rheolaidd, mae’r ysgol yn rhoi gwybodaeth yn ddefnyddiol i ddisgyblion am fyd gwaith. Mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddyheadol am eu dyfodol trwy ddarparu gweithgareddau sy’n edrych ar fywyd a gwaith oedolion llwyddiannus ac ysbrydoledig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu disgyblion, ac mae pob un o’r staff yn deall ac yn hyrwyddo polisïau a gweithdrefnau diogelu’r ysgol. Maent yn gwneud trefniadau addas i sicrhau diogelwch disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth o sut i reoli risg. Er enghraifft, mae staff yn addysgu disgyblion a rhieni am sut i gadw’n ddiogel ar-lein ac yn trefnu gweithdai addysgiadol a boreau coffi sy’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw yn iach a pherthnasoedd. Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau lles disgyblion, ac mae ganddi ddiwylliant diogelu cadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae’n rhannu gweledigaeth yr ysgol yn glir gyda phob aelod o gymuned yr ysgol. Mae’n sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol sydd wrth wraidd ei chymuned. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion, a rhoddir blaenoriaeth i les disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r prif feysydd i’w datblygu. Maent yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ansawdd y ddarpariaeth ac yn sicrhau bod cysondeb mewn safonau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae’r ymagwedd strwythuredig at addysgu a darllen yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen disgyblion.

Caiff y pennaeth ei gynorthwyo’n dda gan y dirprwy bennaeth o ran rheolaeth strategol yr ysgol, ac mae arweinyddiaeth wedi’i dosbarthu’n dda. Gyda’i gilydd, ochr yn ochr ag uwch arweinwyr eraill, maent yn blaenoriaethu meysydd allweddol ar gyfer gwella’r ysgol, sy’n mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda, gan gynnwys ffocws cryf ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol ac yn rhoi cymorth priodol i’r pennaeth. Mae llawer ohonynt yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn deall ei chryfderau a’i meysydd i’w gwella. Maent yn cynorthwyo’r pennaeth yn effeithiol i hyrwyddo diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol.

Mae cylch monitro, gwerthuso ac adolygu blynyddol cynhwysfawr a hyblyg yr ysgol yn cynorthwyo uwch arweinwyr yn effeithiol i werthuso addysgu, a dysgu a lles disgyblion. Mae craffu ar lyfrau, dadansoddi asesiadau athrawon a theithiau dysgu rheolaidd yn darparu profiad uniongyrchol priodol o ran effeithiolrwydd cwricwlwm yr ysgol ac ansawdd datblygiad medrau disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda i fonitro a gwerthuso cyllid yr ysgol a chynllunio gwariant priodol. Maent yn dechrau cyfrannu at hunanwerthuso'r ysgol trwy ymweliadau rheolaidd â'r ysgol, er enghraifft ymweld â'r ysgol i arsylwi prosiect rhifedd, er mai megis dechrau y mae hyn. Mae hyfforddiant diweddar gyda swyddogion yr awdurdod lleol yn gwella'r agwedd hon ar eu rôl. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn rheoli a defnyddio'i hadnoddau'n effeithiol i fynd i'r afael ag effaith anfantais economaidd gymdeithasol ar ddysgwyr. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion y disgyblion a'r gymuned leol ac yn monitro'r defnydd o grantiau yn dda. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth emosiynol a strategaethau ymyrraeth penodol ar gyfer disgyblion a nodwyd.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd effeithiol â rhieni a'r gymuned leol. Caiff rhieni gyfleoedd rheolaidd i fynychu'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth ac ennill dealltwriaeth o'r hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu. Mae arweinwyr yn annog rhieni i rannu eu barn yn rheolaidd trwy lenwi holiaduron a chyfrannu eu syniadau trwy ddiwrnodau agored a boreau coffi anffurfiol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd a gwerthfawr sy'n cynorthwyo staff i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, nododd arweinwyr ystod addas o ddysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â datblygiad cychwynnol cwricwlwm yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd da i athrawon gynnal arsylwadau gwersi rhwng cymheiriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd eu haddysgu. Er enghraifft, mae ffocws ar holi gan athrawon mewn gwersi wedi gwella'r agwedd hon ar ddarpariaeth yr ysgol.

Mae pob un o'r staff addysgu yn meithrin cysylltiadau effeithiol â phartneriaid gwella, ysgolion eraill yn y clwstwr a'r awdurdod lleol i ddatblygu agweddau ar ddarpariaeth eu cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth ddigidol gref a'i gallu i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ar draws y cwricwlwm o ganlyniad i gydweithio.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2024